

Cilycwm



Pam Cerdded?

Mae Cil-y-cwm yn gorwedd yn un o ddyffrynnoedd harddaf Sir Gaerfyrddin, sydd heb ei ddifetha gan ddiwydiant, ac mae ar gyrion y Sir ac yn fan sy'n aml yn cael ei esgeuluso gan ymwelwyr.



Pa mor Hir?

Mae'r llwybr yn 4.6 milltir o hyd (7.4Km).



Pa mor Anodd?

Mae'r dirwedd gymysg sydd â rhannau bryniog ar hyd y ffordd yn cynnig golygfeydd gwych.



Man Cychwyn - ym Mhentref Cil-y-cwm.



Lluniaeth - Mae tafarn bentref yng Ngil-y-cwm.


Llanymddyfri yw'r dref agosaf ac mae'n cynnwys yr holl fwynderau..

Bywyd Adar

I'r rhai sy'n frwdfrydig am wyluo adar, mae'n rhaid ymweld â'r ardal hon. Mae cynefinoedd amrywiol iawn o goetir deri hynafol, coetir planhigfa, afonydd, rhostir yr ucheldir a thir amaethyddol yn darparu cynefinoedd delfrydol ar gyfer amrywiaeth eang o adar preswyl ac adar mudol. Helpodd un o'r prosiectau cadwraeth mwyaf hirhoedlog yn y byd i achub y Barcud Coch ym Mhrydain Fawr. Dylai pob ymwelydd lwyddo i weld y barcud coch. Ymhlith yr adar eraill yn yr ardal y mae'r Croesbig, yr Hebog Tramor, y Gigfran, y Gwybedog Brith, Telor y Coed a'r Tingoch. Mae rhostir yr ucheldir yn gartref i'r Cwtiad Aur, Mwyalchen y Mynydd a'r Cudyllod bach. Mae Bronwen y Dŵr, y Siglen Lwyd, Pibydd y Dorlan a'r Hwyadwydd gyffredin i'w gweld yn yr afonydd a'r nentydd.



Mannau o ddiddordeb



1&2

Mae eglwys y pentref yn perthyn i'r canoloesoedd cynnar a'r gred yw ei bod hi'n dyddio'n ôl i ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg ac mae ynddi baentiadau wal ddi-ddorol iawn. Y mae Ysgoldy Fach, hen ysgoldy o'r 18fed ganrif ynghudd y tu ôl i'r eglwys gan edrych dros afon Gwenlais. Mae Capel Annibynwyr Capel y Groes yn agos i'r Ysgoldy Fach.

3

Ar un adeg roedd y pentref yn fan aros pwysig i borthmyn. Defnyddiwyd y cwteri cerrig crynion ar ochr y ffordd ar un adeg i fwydo da byw ar eu taith hir tua'r dwyrain i'r farchnad.

4

Ar ôl dringo'r bryn, cewch weld golygfeydd gwych o rai o'r tirweddau gorau yng Nghymru.

5

Mae'r golygfeydd gwych o raeadrau Craig Rhossan yn wel fyth yn ystod glaw trwm!

6

Mae gan y dyffryn rannau sylweddol o goetir sy'n cynnwys cymysgedd amrywiol iawn o goed o ran oedran a mathau sydd yn ei dro yn darparu cymysgedd bwysig o gynefinoedd ar gyfer bywyd gwylt. Mae rhai o'r coedwigoedd yn blanhigfeydd cymharol fodern sy'n cynnwys coed Sbrïws, coed Llarwydd a choed Pinwydd sy'n cael eu cwmpo yn eu tro yn rheolaidd, ac mae llawer o'r llethrau mwyaf serth wedi'u gorchuddio gan hen goedwigoedd o goed derw mes di-goes o gymeriad gwahanol iawn. Mae llawer o'r coedwigoedd planhigfa dan reolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ac maent yn Dir Mynediad Agored lle gall y cyhoedd grwydro.

7

I'r gogledd-orllewin o'r man hwn y mae adfeilion Plasty Neuadd Fawr, a gellir ei weld y tu hwnt i gaeau mawr parcdir yr ystâd sydd wrth ochr y ffordd.

#DymaSirGar

#ThisisCarmarthenshire

darganfodsirgar.com • discovercarmarthenshire.com